Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
www.culture.gov.uk

Tachwedd 2005

Arweiniad i bartïon sydd â diddordeb: Cyflwyno sylwadau

Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio'r broses o gyflwyno sylwadau i awdurdodau trwyddedu ynghylch trwyddedau neu dystysgrifau mangre newydd; amrywiadau i drwyddedau neu dystysgrifau mangre presennol; neu ddatganiadau dros dro. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y broses gwrandawiadau. Oni noder yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'trwyddedau' yn y testun hwn hefyd yn gymwys ar gyfer tystysgrifau mangre clwb.

Am beth i chwilio

Pan yw'r sawl sy'n gwneud cais am gyflwyno cais am drwydded newydd, neu amrywio eu trwydded bresennol (er enghraifft i gynnal gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn eu horiau), mae'n rhaid iddynt hysbysu'r cais trwy

Gosod hysbysiad mewn neu ar y fangre

- Ar bapur A4 (neu fwy), glas golau.
- Wedi'i argraffu yn glir mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont sydd o faint 16 o leiaf.
- **Yn amlwg** ar neu yn y fangre lle gellir ei ddarllen **yn hwylus** o'r **tu allan** i'r fangre.
- Bob 50 metr ar berimedr allanol y fangre sy'n ffinio ag unrhyw briffordd (lle mae hynny'n briodol).

Gosod hysbysiad mewn papur newydd

- Mae'n rhaid i gylchrediad papur newydd fod yn ardal y fangre (neu os nad oes yno bapur lleol, mewn cylchlythyr neu newyddlen leol).
- Dylai'r hysbyseb ymddangos o leiaf unwaith yn y 10 diwrnod wedi i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu'r cais.

Cofrestr Trwyddedu

Mae manylion llawn ceisiadau hefyd i'w gweld ar "gofrestr trwyddedu" yr awdurdod trwyddedu. Gallwch ddefnyddio'r Gofrestr i wirio oriau agor; gweithgareddau trwyddedadwy ac unrhyw gamau a wirfoddolwyd gan y sawl sy'n gwneud cais i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Nodir y rhain yn "atodlen weithredol" y sawl sy'n gwneud cais.

Mae'r pedwar amcan trwyddedu fel a ganlyn:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed

Os yw partïon sydd â diddordeb yn bryderus y bydd caniatáu trwydded ar y telerau y gwnaed cais amdanynt yn debygol o gael effaith ar hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion hyn, mae ganddynt 28 diwrnod dilynol yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r awdurdod perthnasol, i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod hwnnw. Rhoddir manylion ynghylch sut i wneud hyn isod.

Polisi Trwyddedu

Cyn cyflwyno sylwadau, efallai y bydd partïon sydd â diddordeb am edrych ar "ddatganiad polisi trwyddedu" eu hawdurdod lleol. Mae'r rhain yn nodi polisïau cynghorau yngl□n â thrwyddedu, ac fe allant egluro'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Atodlen Weithredu

Wrth ystyried y camau y mae'r sawl sy'n gwneud cais wedi eu gwirfoddoli i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, mae'n bwysig cofio y dylai'r sawl sy'n gwneud cais fod eisoes yn dilyn y ddeddfwriaeth mewn meysydd eraill, ac efallai nad ydynt yn teimlo bod angen iddynt wneud dim ychwanegol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Felly mae'n bosib y bydd rhai sy'n gwneud cais yn dweud rhywbeth fel "dim ar wahân i ofynion Iechyd a Diogelwch/Diogelwch Tân ayb. presennol" neu os ydynt yn gwneud cais i amrywio trwydded "dim ar wahân i'r camau yr ydym yn eu cymryd ar hyn o bryd, sydd eisoes yn amodau o'r drwydded".

Am fwy o wybodaeth am y pedwar amcan trwyddedu, a datganiadau'r awdurdod lleol o bolisi trwyddedu, dylech siarad gydag adran trwyddedu eich awdurdod lleol, neu ymweld â gwefan DCMS:

www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/licensing_objectives

Cyflwyno sylwadau

Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu lle lleolir y fangre. Fe all awdurdodau trwyddedu hefyd dderbyn sylwadau trwy e-bost, ond efallai y byddwch am wirio ymlaen llaw bod hyn yn bosib gyda'r awdurdod trwyddedu. Os derbynnir

sylwadau trwy e-bost mae'n rhaid i'r parti sydd â diddordeb anfon copi caled hefyd at yr awdurdod trwyddedu.

Mae'n rhaid i bob sylw a gyflwynir ymwneud ag effaith tebygol caniatáu'r drwydded neu'r dystysgrif ar hyrwyddo o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Byddai'n ddoeth, felly, cysylltu unrhyw sylwadau yn benodol gydag un neu fwy o'r amcanion.

Byddai hefyd o gymorth pe bai'r sylwadau yn benodol i'r fangre ac wedi eu seilio ar dystiolaeth. Felly efallai y bydd partïon sydd â diddordeb am siarad â heddlu lleol ymlaen llaw, neu nodi problemau eu hunain, trwy, er enghraifft, gadw dyddiadur neu dystiolaeth ffotograffig o unrhyw achosion. Bydd angen bodloni awdurdodau trwyddedu bod yno gyswllt o ran tystiolaeth ac achos rhwng y sylwadau a gyflwynwyd, a'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Yn ychwanegol i hyn, dim ond sylwadau nad ydynt yn "blinderus" neu "gwamal" y gall yr awdurdod trwyddedu eu hystyried.

Beth a olygir wrth sylwadau gwamal neu flinderus?

Bydd "gwamal" neu "flinderus" yr un fath â'u hystyr arferol. Yr awdurdod trwyddedu sydd i benderfynu a yw sylwadau yn wamal neu flinderus. Er enghraifft, mae'n bosib y byddai awdurdod trwyddedu yn barnu bod sylwadau yn flinderus pe baent yn codi oherwydd anghydfod rhwng busnesau neu'n wamal os nad oeddent yn sylwadau difrifol.

Ni all partïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau'n ddienw, hyd yn oed os mai rhywun arall (e.e. AS neu gynghorydd lleol) sy'n cyflwyno'r sylwadau ar eu rhan. Mae hyn oherwydd, er enghraifft, bod angen bodloni'r awdurdod trwyddedu bod yr unigolyn sy'n gwneud y sylwadau yn byw yng nghyffiniau'r fangre, ac nad yw'n ymddwyn yn flinderus. Mae hefyd yn bwysig bod y sawl sy'n gwneud cais yn gallu ymateb i'r sylwadau a wneir, er enghraifft, os ydynt o'r farn nad yw'r sylwadau yn "berthnasol". Os yw partïon sydd â diddordeb yn ymboeni am fygythiadau posib, fe allent ystyried gofyn i'r heddlu, neu awdurdod cyfrifol perthnasol arall i gyflwyno sylwadau ar eu rhan.

Pethau y byddwch am eu hystyried efallai wrth gyflwyno sylwadau

- **Os na chyflwynir unrhyw sylwadau perthnasol, mae'n rhaid caniatáu'r drwydded neu'r amrywiad (yn ddarostyngedig i amodau mandadol).**

- Fe allai fod o gymorth i gael cefnogaeth pobl neu fusnesau eraill yng nghyffiniau'r fangre, neu "awdurdodau cyfrifol" eraill megis yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd.

- Edrychwch ar gofnodion swyddogol eich awdurdod trwyddedu ynglŷn â'r fangre, a gedwir yn eu "cofrestr trwyddedu". Bydd hyn yn dangos i chi a yw pobl eraill wedi gofyn am adolygiad o'r fangre yn y gorffennol.

- Os ydych yn meddwl am drefnu deiseb, mae'n bwysig sicrhau bod yr awdurdod trwyddedu yn gallu canfod a yw'r sawl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb o fewn cyffiniau'r fangre. Felly, byddai o gymorth cynnwys cyfeiriadau a nodi'n glir pa sylwadau y maent yn eu cyflwyno. Byddai hefyd o gymorth pe bai llefarydd yn gwirfoddoli i dderbyn manylion am y gwrandawiadau ayb. gan yr awdurdod

trwyddedu ac efallai y byddant yn barod i siarad ar ran y deisebwyr yn y gwrandawiad.

- ❖ Os ydych am ofyn i unigolyn arall, megis AS neu Gynghorydd lleol, i'ch cynrychioli, awgrymir y dylid cyflwyno cais o'r fath yn ysgrifenedig fel bod yr unigolyn yn gallu dangos iddo/iddi dderbyn cais i wneud hynny. Mater i'r AS neu'r Cynghorydd fydd penderfynu a ddylai gytuno i'ch cais. Nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny, er hynny, bydd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn barod i helpu trigolion gyda mater o'r math yma, ac nid yw'n ofynnol iddynt fyw yng nghyffiniau'r fangre dan sylw iddynt allu siarad ar ran trigolion sydd yn byw yn ardal y fangre. Ni fydd cynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgor gwrandawiad trwyddedu'r cais yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth gyda chi ynghylch y cais, y tu allan i'r gwrandawiad ffurfiol, felly awgrymir na ddylech gysylltu â hwynt i'r diben yma.

- ❖ Dylech ystyried sut yr hoffech chi weld y sefyllfa yn cael ei chywiro.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno sylwadau?

Os yw'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod y sylwadau a gyflwynwyd yn berthnasol (hy wedi eu cyflwyno gan barti sydd â diddordeb ac heb fod yn wamal neu flinderus), mae'n rhaid iddo gynnal gwrandawiad i ystyried y sylwadau - oni bai fod modd i'r partïon ddod i gytundeb ymlaen llaw, a chytuno nad oes angen gwrandawiad. Er enghraifft, fe all yr awdurdod trwyddedu gynnig ceisio datrys y mater trwy gyfrwng cytundeb wedi'i negydu y tu allan i wrandawiad ffurfiol. Bydd angen i chi benderfynu a fyddai hynny'n addas i chi, ond fe allwch, wrth gwrs, fynnu bod gwrandawiad yn cael ei gynnal.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o ddyddiad ac amser y gwrandawiad ac yn esbonio ffurf y gwrandawiad.

Os yw'r sawl sy'n gwneud cais yn tynnu eu cais yn ôl ar ôl trefnu dyddiad y gwrandawiad, yna bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi gwybod iddynt fod y gwrandawiad wedi'i ganslo. Dylai partïon sydd â diddordeb fod yn ymwybodol pe baent yn cyflwyno sylwadau ynghylch cais sydd wedyn yn cael ei dynnu yn ôl, ac os yw'r sawl sy'n gwneud cais yn cyflwyno cais newydd, wedi'i addasu, na fydd eu sylwadau yn cael eu cario ymlaen yn awtomatig. Byddai angen ail-hysbysebu unrhyw gais wedi'i addasu fel nodir uchod. Yna bydd angen i bartïon sydd â diddordeb gael cyfle i benderfynu cyflwyno sylwadau neu beidio ynglŷn â'r cais newydd.

Gwrandawiadau Pwyllgor Trwyddedu

Mae'n ofynnol i bartïon sydd â diddordeb a gyflwynodd sylwadau hysbysu'r awdurdod trwyddedu o'r canlynol, o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cychwyn gwrandawiad:

- A fyddant yn mynychu'r gwrandawiad yn bersonol
- A fydd rhywun arall yn eu cynrychioli (e.e. cynghorydd / AS / cyfreithiwr)
- A ydynt o'r farn bod gwrandawiad yn ddiangen (os, er enghraifft eu bod wedi dod i gytundeb cyn y gwrandawiad ffurfiol)
- Os ydynt am i unigolyn arall ymddangos yn y gwrandawiad (nid i'w cynrychioli), cais i ganiatáu i'r unigolyn arall fynychu'r gwrandawiad, a manylion eu henw a sut y gallent gynorthwyo'r awdurdod mewn perthynas â'r cais.

Mae'n ofynnol i bartïon sydd â diddordeb hysbysu'r awdurdod trwyddedu cyn gynted â phosib (trwy hysbysiad dim hwyrach na 24 awr cyn cychwyn gwrandawiad, neu ar lafar yn y gwrandawiad) os ydynt am dynnu eu sylwadau yn ôl.

Fel rheol cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus, oni bai fod yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu ei fod er lles cyhoeddus cynnal y cyfan, neu ran o'r gwrandawiad yn breifat. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r gwrandawiad.

Fel rheol bydd gwrandawiadau yn cael eu cynnal ar ffurf trafodaeth ac yn cael eu harwain gan yr awdurdod trwyddedu, a fydd yn cynnwys 3 o gynghorwyr etholedig yr awdurdod lleol (sef yr is-bwyllgor trwyddedu a ffurfiwyd o'r pwyllgor trwyddedu llawn o 15 cynghorydd). Bydd yr awdurdod trwyddedu yn egluro'r weithdrefn i'w dilyn. Bydd yn penderfynu ar unrhyw gais i unigolion eraill ymddangos yn y gwrandawiad. Bydd yn ystyried y dystiolaeth a gynhyrchwyd mewn cefnogaeth gerbron y gwrandawiad a gall ystyried tystiolaeth a gynhyrchwyd gan barti yn y gwrandawiad, ond dim ond os yw pob parti yn gytûn. Gellir hefyd cyflwyno tystiolaeth bellach os yw'r awdurdod yn gofyn am hynny er mwyn eglurder ynghylch mater sydd gerbron y gwrandawiad. Ni chaniateir croesholi un parti gan barti arall yn ystod gwrandawiad, oni bai fod yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Mae hawl gan y partïon i annerch yr awdurdod a chaniateir yr un amser iddynt i holi unrhyw gwestiynau i'r parti arall. Bydd yr awdurdod yn anwybyddu unrhyw wybodaeth nad yw'n ei hystyried yn berthnasol.

DS - Fe all gwrandawiad fynd yn ei flaen er gwaethaf absenoldeb unrhyw barti e.e. - y sawl sy'n gwneud cais neu'r sawl sydd â diddordeb)

Penderfyniadau Gwrandawiad

O ganlyniad i'r gwrandawiad, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu benderfynu sut i symud ymlaen er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Fe all wneud y canlynol:

- Penderfynu caniatáu neu amrywio'r drwydded ar yr un telerau ag y gwnaed cais amdanynt yn wreiddiol;
- Penderfynu bod angen gwrthod cyhoeddi neu amrywio'r drwydded;
- Penderfynu caniatáu neu amrywio'r drwydded, ond addasu'r amodau;
- Eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o gwmpas y drwydded;
- Yn achos trwydded mangre, gwrthod dynodi unigolyn yn oruchwyliwr mangre.

Mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu hysbysu ei benderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith (os nad yw'n rhoi penderfyniad yn y gwrandawiad) a chynnwys y wybodaeth ar hawl parti i apelio yn erbyn y penderfyniad. Am fwy o wybodaeth ar apelio, gweler yr Arweiniad penodol ar gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniadau trwyddedu.

Am fwy o wybodaeth am wneud sylwadau, cysylltwch ag adran trwyddedu eich cyngor lleol.